Galwn ar Lywodraeth y DU i:

1. Cynnal ymgynghoriad ystyrlon gyda Llywodraeth y Cynulliad wrth weithredu cynlluniau a rhaglenni sydd eisoes yn bodoli a datblygiad strategaethau neu fesurau arloesol yn y dyfodol
2. Adolygu'r lwfans tanwydd gaeaf a thargedu ei gyrhaeddiad yn well tuag at y rhai sydd mewn angen fwyaf. Credwn y dylid targedu'r lwfans at y rhai sydd mewn tlodi tanwydd o bob oedran yn cynnwys plant a phobl ifanc, y rhai sydd yn byw mewn tai anodd i'w trin a'r rhai gyda chyflyrau iechyd hir dymor, yn ogystal â phobl hŷn.
3. Gwella incwm teuluoedd ar incwm isel, hyrwyddo gwneud y mwyaf o incwm yng Nghymru a gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad a chyrff gwirfoddol a chymunedol i gyrraedd grwpiau sydd angen eu targedu fwyaf.

Galwn ar Ofgem i:

1. Creu mesurau diogelwch gwell i amddiffyn y tlawd yng Nghymru
2. Gweithredu i edrych ar y gwahaniaeth prisiau yng Nghymru a lle bo'n briodol mynd i'r afael â hyn
3. Cyflwyno gwybodaeth ar wariant cymdeithasol gan gwmnïau ynni yng Nghymru fel bod Llywodraeth y Cynulliad yn gallu monitro pa adnoddau sydd ar gael, annog atebolrwydd gan gwmnïau ynni o ran yr hyn y maent yn gwario'u harian arnynt a dangos bylchau mewn gwariant
4. Esbonio eu rôl mewn cynothwyo Llywodraeth y Cynulliad i gyflwyno Strategaeth Tlodi Tanwydd i Gymru

Galwn ar Awdurdodau Lleol i:

1. Datblygu a gweithredu cynlluniau a strategaethau cynhesrwydd fforddiadwy lleol
2. Sicrhau bod tlodi tanwydd yn flaenoriaeth i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol ac i Bartneriaethau Strategol Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a defnyddio'r mecanweithiau hyn i sicrhau bod ystyried tlodi tanwydd wedi'i wreiddio ar draws yr agenda statudol leol.

Galwn ar Lywodraeth y Cynulliad i gefnogi'r Siarter hon ac i weithredu'r blaenoriaethau polisi a nodir ynddi.

Trobwynt yn y frwydr yn erbyn

tlodi tanwydd yng Nghymru

FUEL POVERTY CHARTER
SIARTER TLODI TANWYD
CYMRU

Charter Partners

Llais Defnyddwyr Cymru
Consumer Focus Wales

NEA Cymru
Ymgyrchu Dros Gartrefi Clyd
Campaigning for Warm Homes

Oxfam

Shelter Cymru

Children in Wales
Plant yng Nghymru

ECO

END CHILD POVERTY NETWORK CYMRU
RHWYDWAITH DILEU TLODI PLANT CYMRU

Care & Repair Cymru

WE ARE MACMILLAN. CANCER SUPPORT

Disability Wales

NI YW MACMILLAN. CYMORTH CANSER

cyngor ar bopeth
citizens advice bureau

Cartrefi Cymunedol Community Housing Cymru

AGE Concern Cymru

HELP THE AGED WE WILL
Help the Aged yng Nghymru
Help the Aged in Wales

Trobwynt yn y frwydr yn erbyn
tlodi tanwydd yng Nghymru

Gosod yr Ymrwymiad Tlodi Tanwydd Cymreig yn ôl ar y trywydd cywir

Mae'n ddyletswydd cyfreithiol ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth y Cynulliad, o dan Ddeddf Cadwraeth Ynni a Chartrefi Cynnes 2000 y DU i wneud popeth sydd yn rhesymol ymarferol i gael gwared ar dlodi tanwydd. Yng Nghymru, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu targedau sydd yn gyfreithiol rwymol; i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ymysg teuluoedd bregus erbyn 2010, yn yr holl dai cymdeithasol erbyn 2012 ac i bawb erbyn 2018. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyfaddef, oherwydd cynnydd mewn prisiau ynni dros y blynyddoedd diwethaf, y bydd yn annhebygol y bydd yn cwrdd â'i darged cyntaf o gael gwared ar dlodi tanwydd ymysg grwpiau bregus erbyn 2010. Er mwyn cynorthwyo Llywodraeth y Cynulliad i fynd yn ôl ar y trywydd cywir rydym angen ymagwedd mwy radical a chynhwysfawr.

Credwn na ddylai neb yng Nghymru orfod byw mewn cartref oer. Mae rhan ddeiliaid allweddol yng Nghymru wedi dod at ei gilydd i ddatblygu siarter tlodi tanwydd i amlygu'r hyn a gredwn y dylid ei wneud ar frys er mwyn gosod yr agenda tlodi tanwydd yn ôl ar y trywydd cywir.

Rydym yn galw am:

- **Cynllun gweithredu manwl yn nodi sut a phryd y byddwn yn cael gwared ar dlodi tanwydd yng Nghymru**
- **Cefnogi pob teulu sydd mewn tlodi tanwydd i gadw'n gynnes - hyd nes y byddwn wedi cael gwared ar dlodi tanwydd**
- **Ymagwedd gydlynol ac unedig ar draws y sector statudol (ar lefel DU a Chymru) sydd yn cynnwys partneriaid o'r sectorau preifat, gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru**

Galwn ar Lywodraeth y Cynulliad i gefnogi'r siarter hon ac i weithredu pecyn cynhwysfawr i sicrhau bod pob teulu yng Nghymru yn gallu elwa oddi wrth gyfforddusrwydd cartref cynnes sydd yn fforddiadwy i'w wresogi a'i gynhesu.

Bwyta neu wresogi – y gwir anghyfforddus ynglŷn â thlodi tanwydd.

Mae tua 320,000 o deuluoedd yng Nghymru, 1 o bob 4, yn dioddef tlodi tanwydd. Mewn termau technegol mae hyn yn golygu bod rhaid iddynt wario 10% neu ragor o'u hincwm ar ynni i wresogi'r cartref. Mewn bywyd go iawn mae hyn yn golygu na fyddant yn gallu fforddio gwresogi eu cartref a bwyta yn iawn; mae'r dewis felly rhwng bwyta neu wresogi.

Mae tua 320,000 o deuluoedd yng Nghymru, 1 o bob 4, yn dioddef tlodi tanwydd.

Ar hyn o bryd mae bil ynni blynyddol teulu yn y DU ar gyfartaledd dros £1200. Mae hyn yn gynnydd o 33% yn y flwyddyn ddiwethaf ac yn fwy na dwywaith bil ar gyfartaledd bum mlynedd yn ôl. Yng Nghymru, mae prisiau ynni uchel yn cael eu dwysau gan ansawdd gwael y stoc tai, sydd yn gwneud cartrefi yn ddrutach i'w cynhesu, nifer uchel o bobl mewn tlodi ac ar incwm isel a'r ffaith bod nifer o gartrefi yn methu cael eu cysylltu gyda'r prif rwydwaith nwy. Mae teuluoedd yng Nghymru hefyd yn talu tua 5% yn fwy am drydan na theuluoedd yn y DU. Yng Nghymru mae nifer uchel o deuluoedd mewn dyled i gyflenwyr ynni; ym mis Medi 2008, roedd 50,547 o deuluoedd mewn dyled i'w cyflenwyr trydan (ac roedd 20,669 o'r rhain ar fesuryddion talu o flaen llaw) ac roedd 46,588 o deuluoedd mewn dyled i'w cyflenwyr nwy (ac roedd 27,139 o'r rhain ar fesuryddion talu o flaen llaw).

Mae canlyniadau byw mewn cartrefi oer a llaith yn ddinistriol. Mae byw mewn tlodi tanwydd yn effeithio ar iechyd pobl; mae'n cynyddu'r risg o gael afiechydon cyffredin fel anwydau a ffliw, heintiadau anadlol fel broncitis, a chwympiadau yn y cartref. Mae'n gwneud plant ac oedolion yn fwy agored i alergeddau. Mae cartrefi oer a llaith hefyd yn gysylltiedig gydag asthma, problem gynyddol ymysg plant yn enwedig. Ar y pegwn eithaf gall byw mewn cartref oer a llaith achosi marwolaeth, ac mae yn lladd pobl; mae tua 1500 o farwolaethau gormodol yn cael eu hadrodd amdanynt yng Nghymru bob gaeaf ac mae pobl hŷn yn neilltuol o debygol o ddioddef.

Mae canlyniadau anuniongyrchol hefyd. Mae byw mewn tlodi tanwydd yn creu straen eithriadol ar blant ac oedolion a gall arwain at iselder a phryder hir dymor. Gall cyflawniad addysgol plant ddioddef hefyd, gan fod plant yn ei chael yn anodd i wneud eu gwaith cartref mewn cartrefi lle mai dim ond un ystafell y gellir ei gwresogi'n ddigonol, ac maent yn fwy tebygol o fod yn absennol o'r ysgol oherwydd salwch yn berthynol i oerni. Mae plant ac oedolion hefyd yn dioddef rhywfaint o eithrio cymdeithasol, yn aml yn teimlo'n rhy chwithig i wahodd ffrindiau i gartref oer. Yn ogystal â'r canlyniadau o ran iechyd a chyfleoedd bywyd unigolion a theuluoedd ar draws Cymru, mae gan y methiant i wresogi'r cartref yn ddigonol oblygiadau economaidd ehangach i wasanaethau fel iechyd, addysg a chyflogaeth. Yn y pen draw mae byw mewn tlodi tanwydd yn golygu gorfod gwneud dewisiadau anodd rhwng talu am filiau tanwydd, talu am bethau eraill hanfodol fel bwyd, neu fynd i ddyled na ellir ei reoli. Mae cynnydd mewn diweithdra gydag incwm teulu is yn ychwanegu at yr anawsterau y mae teuluoedd mewn tlodi tanwydd yng Nghymru yn eu wynebu.

I arwyddo'r siarter ac am rhagor o wybodaeth ynghlŷn â sut i gymryd rhan ewch i:
www.fuelpovertycharterwales.org.uk

Mae ein polisi yn galw am:

Cynllun gweithredu manwl yn nodi sut a phryd y byddwn wedi cael gwared ar dlodi tanwydd yng Nghymru

Mae angen i ni greu amodau sydd yn sicrhau bod pawb yn gallu ymarfer eu hawl sylfaenol i gartref cynnes, a thorri cylch tlodi tanwydd. Rhaid i egwyddorion sylfaenol datblygiad cynaliadwy a chyfiawnder cymdeithasol, sydd yn cydbwyso materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fod yn rymoedd gweithredol y tu ôl i'r gweithrediadau i roi terfyn ar dlodi tanwydd.

Mae angen Cynllun Gweithredu Tlodi Tanwydd sydd wedi'i gostio'n llawn ac sydd yn nodi'n union pa fesurau sydd angen i Lywodraeth y Cynulliad eu cymryd er mwyn cwrdd â'i dargedau tlodi tanwydd, faint fydd y mesurau hyn yn ei gostio a sut y byddant yn cael eu cyflwyno, ochr yn ochr â cherrig milltir seiliedig ar amser er mwyn mesur y cynnydd tuag at y targedau hyn.

Galwn ar Lywodraeth y Cynulliad i:

1. Datblygu data cadarn i ddangos pwy a ble mae'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd. Mae'r data diweddaraf gan Lywodraeth y Cynulliad yn dyddio'n ôl i 2004. Ers hynny mae prisiau ynni wedi dyblu mwy neu lai gan wthio cannoedd rhagor o deuluoedd yng Nghymru i dlodi tanwydd. Nid oes gan Lywodraeth y Cynulliad ddealltwriaeth glir o gyfansoddiad y teuluoedd newydd hyn sydd mewn tlodi tanwydd, na dealltwriaeth chwaith o'r tueddiadau sylfaenol. Er enghraifft, ychydig iawn o ymchwil sydd wedi'i wneud ar y cysylltiadau rhwng natur wledig a thlodi tanwydd. Ni wyddom chwaith os yw tlodi tanwydd wedi dyfnhau yn ogystal â lledaenu gyda rhagor o bobl yn profi tlodi tanwydd dwys. Heb y data hwn, mae unrhyw gynigion i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn seiliedig ar sefyllfa nad yw ond yn rhannol wedi'i deall.

2. Cynnal archwiliad o ffynonellau data sydd eisoes yn bodoli gan nodi bylchau mewn gwybodaeth a cheisio gosod mecanweithiau yn eu lle i fynd i'r afael â hyn. Dylai hyn gynnwys nodi grwpiau anodd i'w cyrraedd sydd mewn tlodi tanwydd fel y rhai sydd mewn gwaith ac yn dlawd a'r rhai gyda chyflyrau iechyd hir dymor all fod ag anghenion penodol.

3. Rhoi ystyriaeth i gynnwys cwestiynau penodol yn berthynol i dlodi tanwydd yn yr arolwg Cenedlaethol newydd sydd yn cael ei ddatblygu.

4. Nodi canlyniadau allweddol yr ydym yn ceisio eu cyrraedd trwy liniaru pobl allan o dlodi tanwydd fel iechyd, tai, addysg a lles a datblygu ffyrdd o fesur y canlyniadau hyn. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod manteision cymdeithasol ac iechyd codi pobl o dlodi tanwydd yn cael eu hystyried ochr yn ochr â manteision arbedion ariannol ac ynni. Dylid rhoi cydnabyddiaeth i fanteision cost canlyniadau o'r fath dros feysydd polisi ehangach.

Yn fwy na dim fodd bynnag ni ddylai casglu data o'r fath atal Llywodraeth y Cynulliad rhag gweithredu ar frys nawr i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru.

Cefnogaeth i bob teulu sydd mewn tlodi tanwydd i gadw'n gynnes hyd nes y byddwn wedi cael gwared ar dlodi tanwydd

Mae systemau a pholisïau rhyddfrydol wedi'u gyrru gan y farchnad wedi methu â diogelu pobl rhag tlodi tanwydd. Mae tariffiau prisiau yn gymhleth, yn aml mae'r dulliau talu y mae'r rhai mewn tlodi yn eu dewis yn aml yn dod gyda phremiwm pris a hyd yn oed lle mae tariffiau prisiau yn bodoli, yn aml nid yw cwsmeriaid sydd yn gymwys yn ymwybodol ohonynt. Mae cefnogaeth i raglenni effeithlonrwydd ynni trwy Gynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref Llywodraeth y Cynulliad a chynlluniau wedi'u cyllido gan gwmnïau cyfleustodau, ond nid yw y rhain bob amser wedi'u targedu yn dda nac wedi'u cydgysylltu. Hefyd mae Cynllun Arbedion ac Effeithlonrwydd Ynni Cenedlaethol y Llywodraeth yn cynnig cydlynu HEES a CERT, ond nid oes ganddo unrhyw bŵer nac awdurdod i wneud hynny. Credwn bod hyn yn ddiffyg sylweddol sydd angen mynd i'r afael ag ef.

Galwn ar Lywodraeth y Cynulliad i:

1. Gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddod â chyfran gyfartal o gynlluniau effeithlonrwydd ynni'r DU i Gymru a defnyddio pob offer sydd ar gael i sicrhau bod cyflenwyr ynni yn targedu mesurau o'r fath at y rhai sydd fwyaf bregus.

2. Creu pecyn o gyngor a chefnogaeth sydd ar gael i bobl mewn tlodi tanwydd trwy ystod o ffynonellau yn cynnwys trwy gyfrwng asiantaethau cynghori fel yr esiampl a ddarperir gan brosiect Iechyd Gwell Cyngor ar Bopeth. Dylai'r pecyn hwn gynnwys gwybodaeth am y grantiau sydd ar gael o dan HEES, CERT a chynlluniau eraill fel bo'n briodol ar gyfer effeithlonrwydd ynni a mesurau ynni adnewyddadwy a chyngor ar fudd-daliadau. Dylai hefyd roi cefnogaeth a chyngor ar dariffiau ynni i ddefnyddwyr bregus. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod rhyw ffurf o gymorth ar gael i bawb sydd mewn tlodi tanwydd waeth beth fo'u cymhwyster ar gyfer cefnogaeth uwch, tra'n galluogi nodi'r rhai sydd yn gymwys ar gyfer cefnogaeth o'r fath.

3. Gweithio gyda Gweinidogion y DU i weithredu i orfodi cwmnïau ynni i ostwng y taliadau ychwanegol annheg ar ddefnyddwyr sydd yn talu trwy fesuryddion talu o flaen llaw a Chredyd Safonol a chyflwyno safonau isafswm gorfodol ar gyfer tariffiau cymdeithasol i ddefnyddwyr bregus. Credwn hefyd y dylai Llywodraeth y Cynulliad gymryd rôl mewn cynorthwyo defnyddwyr i fynd ar dariffiau rhatach a hyrwyddo cynhwysiad ariannol fel bod y rhai sydd yn cael y trafferth mwyaf gyda'u biliau yn gallu manteisio ar y dulliau talu rhatach.

4. Darparu cefnogaeth i deuluoedd mewn ardloedd gwledig sydd mewn tlodi tanwydd nad ydynt ar y rhwydwaith nwy btrwy gyllido yn llawn y gwaith angenrheidiol i wella eu cartrefi a sefydlu cynlluniau i ddelio ag eiddo anodd i'w trin fel mesurau micro adenwyddadwy ac insiwleiddio waliau solet. Ar hyn o bryd mae nifer o deuluoedd mewn ardaloedd gwledig yn dioddef ddwywaith trwy fod yn byw mewn cartrefi sydd yn anodd i'w trin ac sydd yn anodd i'w insiwleiddio a hefyd yn dibynnu ar y dulliau drutaf o danwydd ar gyfer gwresogi ac heb fod yn gymwys ar gyfer disgowntiau tanwydd deuol. Mae costau uchel gwella eiddo trwy gyfrwng technolegau newydd ac insiwleiddio waliau solet yn golygu eu bod ar hyn o bryd y tu hwnt i gyrraedd y rhan fwyaf o deuluoedd ar incwm isel. Mae'n hanfodol bod gan raglenni grantiau fesurau sydd yn addas ar gyfer eiddo gwledig ac nad oes disgwyl i gleientiaid gyfrannu tuag at y gost.

5. Codi incwm y rhai mewn tlodi tanwydd trwy weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod pobl sydd yn gymwys i dderbyn budd-daliadau cyfredol yn eu derbyn. Dylai hyn gael ei gyflawni trwy ymestyn cynlluniau manteisio ar fudd-daliadau cyfredol i grwpiau eraill anodd i'w cyrraedd. Dylid ymestyn y cynlluniau manteisio ar fudd-daliadau hyn i ddarparu cefnogaeth a chyngor ar effeithlonrwydd ynni i ddefnyddwyr bregus.

6. Datblygu cronfa argyfwng i gefnogi teuluoedd bregus a rhai ar incwm isel sydd yn fregus ac na fyddent fel arall yn gymwys i dderbyn cefnogaeth grant, ond na allai fforddio cost gwresogi brys, insiwleiddio neu fesurau eraill o'r fath. Nid yw HEES yn ateb gwresogi brys ac nid yw nifer o'r rhai mewn tlodi tanwydd yn gymwys ar ei gyfer beth bynnag. Byddai cronfeydd argyfwng yn caniatáu'r rhai mewn angen dirfawr heb unrhyw gynilion eu hunain i osod gwresogi brys a mesurau eraill o'r fath.

7. Datblygu'r Safon Ansawdd Tai Cymru ac ystyried a oes angen mesurau ychwanegol i ddwyn y rhai mewn tai cymdeithasol allan o dlodi tanwydd erbyn dyddiad targed Llywodraeth y Cynulliad o 2012. Yn yr un ffordd, dylid cefnogi pob cartref i fod yn ynni effeithiol ac wedi'u hinsiwleiddio'n dda i'w diogelu yn erbyn effaith prisiau tanwydd cyfnewidiol.

Ymagwedd gydlynol ac unedig ar draws y sector statudol (ar lefel DU a Chymru) sydd yn cynnwys partneriaid o'r sectorau preifat, gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru

Mae gan pob asiantaeth rôl i'w chwarae mewn datblygu'r agenda tlodi tanwydd. Er enghraifft, mae gan asiantaethau statudol fel adrannau tai, gofal cymdeithasol ac asiantaethau iechyd rôl allweddol mewn nodi a thargedu unigolion sydd mewn tlodi tanwydd a'u cyfeirio tuag at gefnogaeth priodol. Gall cyrff gwirfoddol a chymunedol chwarae rôl allweddol hefyd mewn cynorthwyo i dargedu grwpiau anodd i'w cyrraedd a darparu cyngor ac arweiniad ynglŷn â sut i gynnwys a darparu cefnogaeth i'r grwpiau hyn. Dylai Llywodraeth y Cynulliad ymgysylltu'n weithredol gyda'r holl sectorau i yrru'r agenda hon ymlaen.

Galwn ar Lywodraeth y Cynulliad i:

1. Sefydlu Tasglu Tlodi Tanwydd Traws Adrannol Gweinidogaethol gyda dyletswydd i ddiwallu dyletswyddau cyfreithiol y Llywodraeth ar dlodi tanwydd. Rydym eisiau gweld yr holl Weinidogion Cymreig yn ymrwymo i ymgorffori gweithredu ar dlodi tanwydd yng nghynlluniau strategol adrannau, canghennau'r Llywodraeth a'u hasiantaethwyr, fel bod pawb yn cymryd cyfrifoldeb dros eu cyfraniad i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru. Mae'r ymagwedd atebolrwydd yn seiliedig ar ganlyniadau, sydd yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol mewn meysydd fel gwasanaethau plant, yn rhoi fframwaith glir ar gyfer gweithio cydgysylltiedig o'r fath tuag at ganlyniadau ar y cyd, yn seiliedig ar gynllunio rôl clir a rheolaeth perfformiad. Dylai'r tasglu fod yn gysylltiedig yn agos a chyfarfod gyda Gweinidogion y DU sydd â chyfrifoldeb yn y maes hwn.

2. Gosod dyletswydd statudol, gyda chefnogaeth adnoddau, ar awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Mae gan lywodraeth leol rôl allweddol i'w chwarae mewn mynd i'r afael â thlodi tanwydd ond heb arweiniad strategol clir gan Lywodraeth y Cynulliad bydd eu ffocws yn symud tuag at gyflwyno gwasanaethau statudol craidd eraill.

3. Cydlynu gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod cynlluniau a rhaglenni DU yn cymryd ystyriaeth lawn o Gymru a bod gwell cydlyniant gyda HEES a mentrau eraill a ddatblygir yma yng Nghymru. Hefyd ceisio dylanwadu ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod y Lwfans Tanwydd Gaeaf ar gael i grwpiau bregus eraill yn ogystal ag i bensiynwyr.

4. Darparu rhagor o drylowyder ynglŷn â'r berthynas rhwng cyflenwyr ynni yng Nghymru ac Ofgem fel bod rhan ddeiliaid allanol yn gallu gofyn cwestiynau i'r Gweinidog y gellir eu hystyried mewn fforymau a thrafodaethau cyhoeddus. Dylid amlinellu rôl Ofgem yn benodol yn Strategaeth Tlodi Tanwydd Cymru i esbonio sut y byddant yn cefnogi cyflwyniad y Strategaeth.

5. Datblygu ymagwedd strategol tuag at gyfathrebu'r cymorth sydd ar gael i bobl mewn tlodi tanwydd gan ddefnyddio ystod o ddulliau yn cynnwys trwy gyfrwng gweithwyr rheng flaen priodol.